



Polisi Iechyd a Diogelwch Trafnidiaeth Cymru

Mae ein cwsmeriaid, defnyddwyr, gweithwyr a chyflenwyr yn disgwyl y byddant yn cael eu gwarchod rhag niwed wrth ddefnyddio neu ddarparu ein gwasanaethau neu'n hasedau. Rydym yn credu'n angerddol mewn "Profiad diogel, hapus ac iach i bawb." Mae ein Cyfarwyddwyr yn rhannu ein hangerdd a'r disgwyliadau hyn.

Dyma'n hamcanion:

- mae pob siwrnai yn siwrnai ddiogel i'n cwsmeriaid a'n defnyddwyr
- caiff diogelwch ein cwsmeriaid a'n gweithwyr ei sicrhau
- mae ein gweithwyr, ein staff asiantaeth a'n contractwyr yn dychwelyd i'w cartrefi yn ddiogel ac yn iach bob dydd
- rydym yn cynnal ein hasedau ac yn cwblhau prosiectau'n ddiogel
- rydym yn cyflawni ein hymrwymadau i osgoi llygredd a tharfu drwy wella ansawdd aer, lleihau gwastraff ac allyriadau carbon
- Rydym yn gynhwysol ac ar gael i'n cwsmeriaid a'n defnyddwyr i gyd, yn cynnwys cwsmeriaid anabl.

Sut byddwn yn gwneud hyn

Byddwn yn sefydlu rheolau a gweithdrefnau iechyd, diogelwch a lles, yn cynnwys gweithdrefnau brys sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae'r rhain at eich defnydd chi. Os nad ydych yn gwybod lle i ddod o hyd iddynt, gofynnwch i'ch rheolwr llinell neu'r Cyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd.

Rydym yn gweithio gyda chi i ddeall y peryglon ac i gyflwyno mesurau iechyd, diogelwch a lles i sicrhau bod risgiau yn parhau i fod mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol. Byddwn yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth. Ceir adolygiad rheolaidd o ystadegau diogelwch, iechyd a lles er mwyn clustnodi tueddiadau positif ac andwyol a'r hyn sydd wedi'u hachosi, fel y gallwn gymryd y camau angenrheidiol. Rydym hefyd yn sicrhau ein hunain bod ein cyflenwyr yn arddel gweithdrefnau iechyd, diogelwch a lles o'r radd flaenaf.

Bob blwyddyn, byddwn yn datblygu cynlluniau gwella iechyd, diogelwch a lles manwl er mwyn gwella'r hyn a wnawn. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cyfarwyddwyr yn eich rhan o'r busnes.

Mae ein cwsmeriaid, defnyddwyr, gweithwyr a chyflenwyr yn disgwyl y byddant yn cael eu gwarchod rhag niwed wrth ddefnyddio neu ddarparu ein gwasanaethau neu'n hasedau. Mae ein Cyfarwyddwyr yn rhannu ein gweledigaeth a'r disgwyliadau hyn.

Wrth weithio i Trafnidiaeth Cymru, byddwch yn derbyn yr hyfforddiant a'r offer angenrheidiol fel y gallwch ymgymryd â'ch swydd yn ddiogel, sicrhau diogelwch cwsmeriaid ac amddiffyn yr amgylchedd.

Fel gweithiwr, mae eich lles corfforol a'ch iechyd meddwl yn bwysig ac rydym yn darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol i'ch helpu i barhau'n iach ac mewn gwaith ac i ddarparu cyfleusterau llesiant addas yn eich gweithle.

Rydym eisiau parhau i gynnal diwylliant teg ac ymgynghorir â gweithwyr neu eu cynrychiolwyr ar faterion iechyd a diogelwch yn ôl y gofyn, mewn modd ystyrlon ar ffurf cyfarfodydd iechyd a diogelwch rheolaidd neu'n amlach pan fo angen.

Yr hyn y gallwn ni i gyd ei wneud

Mae angen i bob un ohonom ofalu am ein gilydd a chofio dweud ein dweud os oes unrhyw beth yn anniogel neu'n niweidiol i iechyd neu i'r amgylchedd.

Mae gennym ni i gyd ddyletswydd i ddilyn ein rheolau a'n gweithdrefnau iechyd, diogelwch a lles. Peidiwch â chymryd llwybrau byrion. Os ydych yn meddwl fod rheolau a gweithdrefnau yn ddiwerth, gadewch i'ch rheolwr wybod. Gellir newid rheolau a gweithdrefnau os oes angen.

Gallwn ddysgu o'r gorffennol, felly cofiwch adrodd am bob damwain, digwyddiad a phob achos lle bu bron i rywbeth ddigwydd.

Cofiwch arddel ymddygiad Trafnidiaeth Cymru ym mhob peth a wnewch.

Fel hyn, gallwn weithio gyda'n gilydd fel bod ein gweledigaeth o amgylchedd diogel ac iach yn cael ei gwireddu.

James Price



Prif Swyddog Gweithredol, Trafnidiaeth Cymru